# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm (Rheoli Datblygu) (DPJ) (cais 2),<br>Uwch Swyddog Cynllunio (Gorfodaeth) (CR) (cais 1) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, R O Jones, Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol : Y Cynghorydd Dafydd R Thomas (cais 1 yn unig) |

---

**1 46C622ENF - CAIS LLAWN AR GYFER YMESTYN Y CWRTIL YNGHYD Â CHADW'R ADEILAD A FYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO FEL GAREJ DDOMESTIG A SWYDDFA AR GYFER Y CARTREF YN Y BORTH, FFORDD PORTHDAFARN, CAERGYBI**

Edrychodd yr Aelodau a'r safle'r cais o'r ffordd fawr yn Nhraeth Porthdafarch ac aethant i ymweld â'r safle. Rhoes y Swyddog Achos amlinelliad o fanylion y cynllun.

**2 FPL/208/57 -CAIS LLAWN AR GYFER CODI 46 O ANHEDDAU YNGHYD Â CHREU MYNEDFA NEWYDD I GERBYDAU AR DIR GER PARC TYDDYN BACH, CAERGYBI**

Darllenodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio e-bost gan Aelod Lleol, y Cynghorydd Glyn Haynes yn rhestru'r rhesymau pan ei fod wedi gofyn am i'r cais gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu fod y cynnig ar gyfer y safle yn cynnwys ail ran y gwaith ar y safle cyfagos ble yr oedd gwaith adeiladu'n mynd rhagddo a'i fod yn gynnig am 46 o eiddo pâr ac annibynnol deulawr gyda cherbydau'n cael mynediad drwy'r stad bresennol.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**